# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Mai 2017

Amser: 09.09 - 10.46

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4137

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith<br>Rhodri Griffiths, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 556KB) Gweld fel HTML (235KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ymateb y deisebwyr cyn trafod y camau nesaf i'w cymryd mewn perthynas â'r ddeiseb.

### 2.2 P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i ofyn y cwestiynau penodol a godwyd gan y deisebwyr.

### 2.3 P-05-752 Meithrin gallu plant i wrthsefyll seiberfwlio

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymateb gan y deisebydd cyn penderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd mewn perthynas â'r ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-712 Byddai Adran Llywodraeth Cymru o fewn Ewrop yn sicrhau llais clir, strategol ac atebol i Gymru mewn trafodaethau parhaus

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i anfon sylwadau'r deisebydd ymlaen at y Prif Weinidog a gofyn am atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd.

### 3.2 P-04-466 Argyfwng Meddygol - Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb a rhoi gwybodaeth bellach i'r deisebydd o ran sut y gallai fynegi ei bryderon ynghylch yr ystyriaeth a roed eisoes i'r ddeiseb.

### 3.3 P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i:

- nodi'r pryderon a godwyd gan y deisebydd;
- gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran unedau anhwylder bwyta; a
- gofyn iddo roi gwybod i'r Pwyllgor pan gyhoeddwyd canlyniadau'r adolygiad ffurfiol ar y Fframwaith Anhwylderau Bwyta ar gyfer Cymru.

### 3.4 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofyn am ei sylwadau ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor Iechyd Cymunedol a'r Pwyllgor Meddygol Lleol, ynghyd â:

- Nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol ynghylch gwasanaethau i'w cynnig gan y ganolfan iechyd newydd yn Blaenau o haf 2017;
- Gofyn a yw'r Bwrdd Iechyd yn ystyried y bydd y Ganolfan yn cynnig y lefel o ofal lleol a ragwelir gan Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid yn 2012;
- Gofyn sut yr eir i'r afael â'r diffyg parhaus canfyddedig o welyau cleifion a'r anhawster recriwtio meddygon teulu yn yr ardal;
- Ei safbwynt o ran y diffyg cartrefi nyrsio cofrestredig yn yr ardal neu gartrefi gofal sy'n gallu darparu gofal ar raddfa lai.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i roi gwybod iddynt am y ddeiseb a gofynna fyddai'n helpu gydag unrhyw beth o'u gwaith cyfredol.

### 3.5 P-04-570 Argaeledd Anghyfartal o Ran Triniaethau Nad Ydynt Wedi'u Harfarnu'n Genedlaethol Gan GIG Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb o ystyried i'r prif elfen - sef adolygu'r 'rheol eithriadol' - gael ei ddiwallu.

### 3.6 P-05-693 Rhowch y Brechlyn Llid yr Ymennydd B i Bob Plentyn yng Nghymru am ddim

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ofyn am sylwadau'r deisebydd ar yr ohebiaeth ddiweddar cyn cytuno ar y camau nesaf i'w cymryd.

### 3.7 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu ar Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn am ragor o fanylion am y cynnig i gyfyngu ar y gwaith datblygiad glo newydd sydd wrthi'n cael ei ystyried i ymgynghori arno fel rhan o'r adolygiad o Bolisïau Cynllunio yng Nghymru y llynedd.

### 3.8 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu ar Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn am ragor o fanylion am y cynnig i gyfyngu ar y gwaith datblygiad glo newydd sydd wrthi'n cael ei ystyried i ymgynghori arno fel rhan o'r adolygiad o Bolisïau Cynllunio yng Nghymru y llynedd.

### 3.9 P-05-705 Annog Pwyllgorau Cynllunio i Sicrhau bod Penderfyniadau Cynllunio yn Rhoi Sylw Dyledus i'r Effaith ar Grwpiau Cymunedol a Sefydliadau Gwirfoddol Lleol, neu i'r Posibilrwydd y bydd y Grwpiau a'r Sefydliadau hyn yn cau.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb ar y sail nad yw'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth sy'n fater digon arwyddocaol yn ogystal â diffyg cysylltiad â'r deisebydd.

### 3.10 P-05-741 Mae angen cyfyngiadau llymach ar Cyfoeth Naturiol Cymru.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb ar y sail bod:

- Adnoddau Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod barn tirfeddianwyr a meddianwyr, yn ogystal ag ystyriaethau economaidd ehangach, yn cael eu hystyried wrth benderfynu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;

- Nid yw'r Pwyllgor yn gallu ymyrryd yn y sefyllfa benodol dan sylw gyda'r tir wedi'i feddiannu gan y deisebydd.

### 3.11 P-05-743 Rhowch derfyn ar fasnachu anifeiliaid anwes egsotig yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn y cwestiynau penodol a gynigiwyd gan y deisebydd.

### 3.12 P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, gan gynnwys sylwadau diweddaraf y deisebydd, a gofyn a fyddai ef neu ei swyddogion yn barod i gwrdd â'r deisebwyr i drafod eu sylwadau a chynnig cefnogaeth mewn rhagor o fanylder.

### 3.13 P-04-576 Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ddarparu'r rhagor o dystiolaeth a dderbyniwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a gofyn am ragor o fanylion am yr amserlen ar gyfer yr adolygiad arfaethedig a dadansoddiad annibynnol o hysbysiadau cosb benodedig.

### 3.14 P-05-694 Amseroedd Ysgol Awr yn Hwyrach

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- cau'r ddeiseb gan fod hyn yn fater o gyfrifoldeb i ysgolion unigol ac nid oes tystiolaeth ddigonol ar hyn o bryd i gefnogi argymhelliad gan y Pwyllgor Deisebau; a
- diolch i'r deisebydd am i ymgysylltiad â'r broses ddeisebau a dymuno'r gorau iddo yn y dyfodol.

### 3.15 P-05-707 Rhaid i Hyfforddiant Athrawon Gynnwys Hyfforddiant Statudol ar Awtistiaeth

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn cynnwys y sylwadau a dderbyniwyd gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, a gofyn a yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i gynnwys awtistiaeth fel gofyniad yn y rhaglen newydd ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon o 2019.

### 3.16 P-05-735 Gwneud y cyfnod sylfaen yn fwy effeithiol ar gyfer ein plant, darparu mwy o athrawon a dileu y TASau blwyddyn 2.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at y deisebydd i ofyn am ei sylwadau ar yr ymateb a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

### 3.17 P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at y deisebwyr i rannu cynnig Cyngor Sir Powys i drosglwyddo asedau i'r gofeb
- chau'r ddeiseb.

### 3.18 P-05-692 Adeiladu Cofeb Mamieithoedd Rhyngwladol ym Mae Caerdydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- anfon sylwadau diweddaraf y deisebydd ymlaen at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith; a
- ystyried cau'r ddeiseb y tro nesaf y caiff ei hystyried.

### 3.19 P-05-716 Cludiant am ddim ar drenau i ddisgyblion ysgol gyda Threnau Arriva Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at:

- Trenau Arriva Cymru i rannu pryderon y deisebydd a gofyn a fyddent yn ystyried gwneud newidiadau i'r trefniadau diogelwch ar y platfform yng ngorsaf Treorci, gan gynnwys maint y lloc ar gyfer disgyblion; ac
- Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i roi gwybod iddo am sylwadau'r deisebydd mewn perthynas â diogelwch disgyblion ar y platfform yng ngorsaf Treorci.

### 3.20 P-05-720 Deiseb Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn i Osod Band Eang Ffibr Opteg yn y Pentref

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr amserlen debygol ar gyfer cynnig band eang ffibr opteg i adeiladau yn Hirwaun a Phenderyn.

### 3.21 P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ddisgwyl am ganlyniad yr Adolygiad Terfyn Cyflymder sydd i gychwyn yn haf 2017.

### 3.22 P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith i ofyn a wnaiff ystyried adolygu'r meini prawf ar gyfer pellter trafnidiaeth rhwng cartref ac ysgol, neu fesurau gwahanol i wella diogelwch myfyrwyr wrth deithio i'r ysgol.

### 3.23 P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at y Llywydd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau a gymerwyd i wneud y sylw a roddir i drafodion y Cynulliad yn fwy hygyrch i bobl fyddar ers yr ohebiaeth flaenorol a dderbyniwyd gan ei rhagflaenydd ym mis Mai 2014; ac

- rhoi gwybod i'r deisebydd na ally Pwyllgor fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â hygyrchedd y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar ac y dylid codi'r mater gyda'r grŵp ei hun.

### 3.24 P-05-726 Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i ofyn am ei ymateb i'r sylwadau pellach a wnaed gan y deisebydd.

### 3.25 Peidiwch â gadael i Forsythia gau!

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at:

- y Prif Gorff Cyflenwi Cymunedau yn Gyntaf sy'n gyfrifol am Ganolfan Ieuenctid Forsythia i ofyn am wybodaeth ynghylch y cymorth a fydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer y grŵp, o ystyried llwyddiant ymddangosiadol y gwaith a wnaed;
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, er mwyn rhannu'r fideo a'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Ganolfan Ieuenctid Forsythia, a mynegi pryder ynghylch effaith a allai colli prosiectau llwyddiannus fel hyn ei chael ar ardaloedd lleol;
- Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i ofyn a oes llwybr i gefnogi prosiectau megis Canolfan Ieuenctid Forsythia drwy waith ieuenctid;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i rannu'r fideo a'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Ganolfan Ieuenctid Forsythia a gofyn am eu sylwadau; a
- Canolfan Ieuenctid Forsythia i ddiolch iddynt am ddarparu'r fideo i'r Aelodau yn mynegi eu pryderon ac am fod yn yr oriel gyhoeddus ar gyfer y cyfarfod.

### 3.26 P-04-524 Rheolaeth Gynllunio a'r Gymraeg

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd y cyfnod o amser a oedd wedi mynd heibio ers i'r deisebwyr gysylltu ddiwethaf.

### 3.27 P-04-559 Ymwybyddiaeth mewn Ysgolion Uwchradd o Hunan-niweidio

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd y cyfnod o amser a oedd wedi mynd heibio ers i'r deisebwyr gysylltu ddiwethaf.

## 4 Sesiwn dystiolaeth - P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt

Bu i Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. a Rhodri Griffiths, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth ateb cwestiynau gan y Pwyllgor